

Gwenynen durio dresgl (*Andrena tarsata*)

Gwenynen grwydrol dresgl (*Nomada roberjeotiana*)



Gwenynen durio dresgl (*Andrena tarsata*) © Liam Olds



Gwenynen grwydrol dresgl (*Nomada roberjeotiana*) © Steven Falk

Mae'r Wenynen durio dresgl (*Andrena tarsata*) yn wenynen fechan, ddu sydd wedi ei henwi am ei dibyniaeth ar Dresgl y moch (*Potentilla erecta*), y brif ffynhonnell paill yn y mwyafrif o'i safleoedd ym Mhrydain. Mae'n Brin yn Genedlaethol ac mae wedi dirywio gymaint fel ei bod wedi ei rhestru dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel Rhywogaeth Bwysig Iawn yng Nghymru.


Mae'r Wenynen grwydrol dresgl (*Nomada roberjeotiana*) yn barasit nyth i'r Wenynen durio dresgl, y gellir ei hadnabod oddi wrth ei thoracs du ac oren gyda smotiau lliw hufen ar ei hochrau. Mae wedi ei rhestru'n Brin yn Genedlaethol (RDB3). Mae'r ddwy rywogaeth yma'n dibynnu ar Dresgl y moch fel ffynhonnell paill, felly mae trwch sylweddol o'r planhigyn hwn yn hanfodol i'w goroesiad.

Cylch bywyd

Mae'r ddwy rywogaeth yn hedfan rhwng mis Mehefin a mis Awst. Bydd y Gwenyn durio dresgl benyw yn palu twll nythu mewn tir moel neu dir sydd â fawr ddim llystyfiant sy'n wynebu'r de, gan amlaf mewn torlan isel. Byddant yn casglu paill Tresgl y moch i lenwi'r nyth ar gyfer eu larfâu. Er y gall Gwenyn durio dresgl ffurfio cytreff nythu, mae pob nyth yn annibynnol. Bydd Gwenyn grwydrol dresgl yn dodwy eu hwyau yn nythod Gwenyn durio dresgl ble bydd y larfâu'n deor a bwyta storffeydd bywyd y cynhaliwr. Bydd yr oedolion hefyd yn bwydo'n bennaf ar Dresgl y moch.

Map dosbarthiad


Yng Nghymru, mae gan y Wenynen durio dresgl ddosbarthiad eang ond bratiog gyda phoblogaethau lleoledig i'w cael ar hyd arfordir Ynys Môn, Penrhyn Llŷn a'r Gŵyr, a phoblogaethau mewndirol yng nghymoedd De Cymru, Mynyddoedd Cambria a Pharc Cenedlaethol Eryri. Roedd y Wenynen grwydrol dresgl yn arfer bod yn fwy niferus yng Nghymru ond mae'n ymddangos ei bod bellach wedi ei chyfyngu i safleoedd unigol ar Ynys Môn (Y Bonc, ger Marian-glas) ac yng Ngheredigion (Banc-y-mwldan, Aberteifi), a dau safle yn Sir Benfro (Maes Tanio Castellmartin a Phen Strwmbwl).



Gwenynen durio dresgl (*Andrena tarsata*)

Cofnodion y Wenynen durio dresgl:

gwyn = 1800 i 1949,
oren = 1950 i 1989,
coch = 1990 i 2017.



Gwenynen grwydrol dresgl (*Nomada roberjeotiana*)

Cofnodion y Wenynen grwydrol dresgl:

gwyn = 1800 i 1949,
oren = 1950 i 1989,
coch = 1990 i 2017.

(Mae'r dyddiadau diweddaraf (uchaf) yn gorchuddio'r dyddiadau cynharach (rhaf is). Casglwyd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yma trwy Atlas NBN a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru o'r ffynonellau canlynol: Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug

(BWARS), Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BIS), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru (Cofnod), a Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru. Lawrlwythwyd o Atlas NBN ar <http://nbnatlas.org>. Cyrchwyd 01 Mawrth 2018.)

Cynefin

Yng Nghymru, mae'r gwenyn hyn i'w canfod fel arfer mewn cynefinoedd llawn Tresgl y moch fel rhostir, gweundir, glaswelltiroedd asidig, llwybrau meirch a llennyrch mewn coetiroedd llydanddail a chonifferaidd, a safleoedd tir llwyd gruglog fel tomennydd glo sydd wedi aildyfu. Maent i'w cael hefyd ar dir parc a choed pori yr iseldir, mignenni, a glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn. Eu hoff safleoedd nythu yw torlannau pridd moel heulog, sy'n wynebu'r de. Gallant hefyd ddefnyddio ardaloedd moel eraill neu rai sydd â fawr ddim llystyfiant, fel llwybrau a thraciau. Mae'r Wenynen durio dresgl angen clystyrau trwchus o flodau Tresgl y moch o fewn 250m i safleoedd nythu.

Achosion dirywiad

Mae'n debyg bod y Wenynen durio dresgl wedi dirywio o ganlyniad i golli a dirywiad cynefinoedd llawn Tresgl y moch trwy ddwysáu amaethyddol, coedwigaeth fasnachol, a rheolaeth amhriodol o gynefinoedd fel gorbori neu danbori cynefinoedd gan dda byw. Gall gwaith coedwigaeth hefyd achosi diflaniadau'n lleol, trwy gorddi llwybrau meirch. Mae'n gysylltiedig â blodau Tresgl y moch, ond mae ganddi hefyd ofnion amhenodol eraill sydd, mae'n debyg, yn absennol o ardaloedd priodol ble mae'r planhigyn yn doreithiog. Mae'n debyg bod y Wenynen grwydrol dresgl wedi dirywio o ganlyniad i ddirywiad ei chynhaliwr, yn enwedig efallai golli cytrefi cryfion a meta-boblogaethau o'r cynhaliwr.

Rheoli cynefin

- Ceisiwch fwyafu toreth Tresgl y moch sy'n blodeuo rhwng mis Mehefin a mis Awst trwy osgoi pori trwm neu dorri rhwng mis Mawrth a mis Medi.
- Mewn glaswelltir asidig llawn Tresgl y moch, dylid osgoi defnyddio gwrteithiau neu bladdwyr a chasglu unrhyw dorian ar ôl torri.
- Dylech gadw ardaloedd nythu posibl neu y gwyddoch amdanynt yn glir o llystyfiant sy'n tresmasu arnynt, fel prysgwydd neu wair bras.
- Ar rostir, cadwch strwythur Grug amrywiol er mwyn i Dresgl y moch allu tyfu mewn llecynnau glaswelltog agored a chadw ymylon llawn Tresgl y moch a strimynnau atal tân ar hyd traciau.
- Mewn coetiroedd, hyrwyddwch dyfiant Tresgl y moch ar hyd blotiau wedi eu clirio ac ymylon llydan llwybrau meirch.

- Rheolwch ymylon ffyrdd glaswelltir asidig, strimynnau atal tân ac ardaloedd ffurfiol fel 'lawntiau gwenyn'. Torrwch fel yr argymhellwyd uchod, ond i lawr at 2 fodfedd i greu lawntiau byr sy'n llawn Tresgl y moch.
- Ceisiwch annog a chynnal ffurfio rhostir a glaswelltir asidig llawn Tresgl y moch mewn chwareli segur a safleoedd tir llwyd eraill, fel tomennydd rwbel glofeydd.



Cynefin y Wenynen durio dresgl ym Mharc Gwledig Cwm Clydach, Rhondda Cynon Taf © Liam Olds.

Mwy o wybodaeth

Gellir ymweld â'r daflen hon ar y we ar www.buglife.org.uk

Mae'r gwenyn hyn wedi eu cynnwys yn adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru, Buglife Cymru, y gellir ei lawrlwytho o www.buglife.org.uk/adroddiad-gwenyn-dan-fygythiad-cymru

Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug www.bwars.com. Cyfrif rhywogaethau ar *Andrena tarsata* a *Nomada roberjeotiana*.

Falk, S. J. (1991) A review of the scarce and threatened bees, wasps and ants of Great Britain. Research and Survey in Nature Conservation No. 35. Peterborough: Cyngor Gwarchod Natur.